



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Medi 2020

**Trosolwg** Mae adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Orchymyn gael ei wneud sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau Senedd Cymru (a elwid Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt). Mae'r ymgynghoriad hwn am glywed eich barn ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Gorchymyn presennol (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007) a fyddai'n cael eu gwneud gan Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i dychwelyd atom erbyn y dyddiad cau drwy ei phostio i'r cyfeiriad isod. Mae trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod ymatebion sy'n cael eu postio yn dod i law yn ystod y pandemig COVID-19.

Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Neu fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>) a gellir ei dychwelyd atom drwy e-bost: [CAUMailbox@llyw.cymru](mailto:CAUMailbox@llyw.cymru).

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007  
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/236/contents/made>

Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020  
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/1/contents/enacted/welsh>

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)  
<https://busnes.senedd.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?lId=26688>

**Manylion cyswllt** I gael rhagor o wybodaeth:

Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [CAUMailbox@llyw.cymru](mailto:CAUMailbox@llyw.cymru)

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod am y data personol sydd gennym amdanoch a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

## **Y Cefndir**

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (y cyfeirir ato yng ngweddill y ddogfen hon fel "Gorchymyn 2007") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau Senedd Cymru (a elwid Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt ac y cyfeirir ati yng ngweddill y ddogfen hon fel "y Senedd"). Mae'n nodi'r ffordd y bydd yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer her gyfreithiol i etholiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch casglu a chadw dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy a gofynion yn ymwneud â delio â phleidleisiau absennol a'r cais ar eu cyfer.

Mae Gorchymyn 2007 yn cael ei adolygu ac fel arfer mae wedi'i ddiwygio cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd. Gan amlaf, gwneir diwygiadau i'r Gorchymyn er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol mewn polisi neu ddeddfwriaeth sydd wedi bod ers yr etholiad blaenorol. Maent hefyd yn gwneud unrhyw ddiweddariadau technegol a/neu fân ddiweddariadau perthnasol megis diwygio cyfyngiadau penodol ar wariant ymgeiswyr.

Mae Gorchymynion a diwygiadau blaenorol wedi'u gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Gorchymyn 2007 presennol wedi'i ddiwygio sawl gwaith. Yn sgil Deddf Cymru 2017 mae'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd wedi'i drosglwyddo i raddau helaeth i Weinidogion Cymru.

## **Beth yw'r prif faterion?**

Diwygiwyd Gorchymyn 2007 yn 2010, 2013 a dwywaith yn 2016. Rydym wedi ymrwymo i wneud y gyfraith yng Nghymru yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio. Ynghyd â llawer o rai eraill, rydym yn cydnabod bod angen diweddarau a chydgrynhoi'r gyfraith etholiadol yn gyffredinol. Gan fod y Gorchymyn presennol wedi'i ddiwygio sawl gwaith, gwnaethom ystyried a ddylid ail-wneud y Gorchymyn yn hytrach na'i ddiwygio. O ystyried ehangder y Gorchymyn, yr angen iddo fod yn ei le mewn da bryd cyn etholiadau'r Senedd yn 2021 a maint tebygol y gwaith a fyddai'n angenrheidiol, daethom i'r casgliad y byddai'n well diwygio'r Gorchymyn y tro hwn. Serch hynny, bwriadwn adolygu'r Gorchymyn ymhellach ar ôl yr etholiadau gyda golwg ar ei gydgrynhoi mewn pryd ar gyfer etholiadau 2026.

Mae rhai o'r diwygiadau arfaethedig i Orchymyn 2007 i baratoi at etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yn dechnegol yn eu natur ac yn angenrheidiol i adlewyrchu penderfyniadau polisi a newidiadau deddfwriaethol sydd eisoes wedi'u hystyried yn helaeth. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn codi o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau etholfraint ac anghymhwysu a wnaed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, sef estyn yr hawl i bleidleisio i bobl 16 a 17 mlwydd oed ac i ddinasyddion tramor cymhwysol, a rhai diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r darpariaethau anghymhwysu ac enwi.

Mae rhai o'r diwygiadau eraill yn fwy sylweddol gan adlewyrchu newidiadau a wnaed yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i roi'r dewis i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â mater talu ffioedd i swyddogion canlyniadau

am wasanaethau a ddarperir. Hefyd, gwneir diweddariadau cyffredinol sy'n adlewyrchu newidiadau ers i'r Gorchymyn gael ei ddiwygio ddiwethaf.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod wedi nodi'r materion perthnasol a bod y diwygiadau a luniwyd yn glir ac yn ymarferol. Nid ydym yn ymgynghori ar rinweddau polisiâu sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a dadl. Yn achos polisiâu a ystyriwyd yn yr asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth ychwanegol neu amgen, ni fwriadwn gynnal yr asesiadau hynny eto. Mae dolenni at Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (gan gynnwys canlyniad yr ymgynghoriadau a'r asesiadau effaith rheoleiddiol) wedi'u cynnwys ar y dudalen gyntaf.

Byddem yn croesawu sylwadau ynglŷn ag unrhyw angen i ddiweddarau neu ddiwygio agweddau ychwanegol ar Orchymyn 2007 yn ogystal â sylwadau ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig eu hunain.

### **Newid enw'r Senedd**

Mae'r Offeryn Statudol (OS) drafft yn defnyddio'r enw newydd, sef Senedd Cymru, wrth ddiwygio Gorchymyn 2007.

Nid yw'r OS drafft yr ydym yn ymgynghori arno yn diwygio'n benodol bob cyfeiriad yng Ngorchymyn 2007 at y "Cynulliad Cenedlaethol" neu'r "Cynulliad". Y rheswm yw y bwriedir i Ran 2 o Ddeddf y Senedd weithio ochr yn ochr ag adran 150A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r adran hon (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 2(7) o Atodlen 1 i Ddeddf 2020) yn darparu bod cyfeiriadau at Senedd Cymru, Deddfau Senedd Cymru a Chomisiwn y Senedd yn ôl eu hen enwau yn cynnwys yr enwau newydd a roddwyd gan Ran 2 o Ddeddf 2020.

### **Estyn etholfraint y Senedd i bobl 16 a 17 mlwydd oed a darpariaethau cysylltiedig**

Mae'r OS drafft yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu'r ffaith bod Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 wedi estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 mlwydd oed, gan gynnwys darpariaethau yn ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy, darparu cymorth i bleidleisio a chyfyngiadau ar bersonau sy'n mynd i orsaf bleidleisio. Hefyd, cynigir diwygiadau i estyn darpariaethau yn ymwneud â throseddau a chosbau i gynnwys pobl 16 a 17 mlwydd oed. Serch hynny, ni chynigir diwygio Gorchymyn 2007 i estyn pob darpariaeth i'r categori hwn o bleidleiswyr pan ystyrir y byddai'n amhriodol gwneud hynny. Er enghraifft, ni fydd troseddau a chosbau a oedd yn arfer bod yn gymwys i bobl 16 a 17 mlwydd oed fel cyrhaeddwyr yn cael eu hestyn i bobl 14 a 15 mlwydd oed, gan eu bod yn annhebygol o fod â'r gallu i dalu unrhyw gosb ariannol.

Yn sgil estyn yr etholfraint mae angen diwygiadau i ddod â phobl 14 a 15 mlwydd oed o fewn cwrpas y canfasiad blynyddol. Felly, mae diwygiadau hefyd wedi'u gwneud i ddarpariaethau yn ymwneud â chynnal, defnyddio a chyhoeddi cofnodion i sicrhau cysondeb â'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

## **Estyn etholfraint y Senedd i ddinasyddion tramor cymhwysol**

Cynigir diwygiadau tebyg i adlewyrchu darpariaethau yn Neddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 sy'n estyn yr etholfraint i ddinasyddion tramor cymhwysol.

At y dibenion hyn, “dinasyddion tramor cymhwysol” yw:

- (a) personau nad ydynt yn ddinasyddion o'r Gymanwlad, yn ddinasyddion o Weriniaeth Iwerddon nac yn ddinasyddion perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd, a
- (b) naill ai-
  - a. personau nad ydynt yn berson sydd angen caniatâd o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 i ddod i'r Deyrnas Unedig neu aros yn y Deyrnas Unedig, neu
  - b. bersonau sydd angen caniatâd o'r fath ond sydd am y tro ag unrhyw ddisgrifiad o ganiatâd o'r fath (neu sydd, drwy rinwedd unrhyw ddeddfiad, i gael eu trin fel pe bai ganddynt ddisgrifiad o'r fath).

## **Anghymhwysol**

Ar hyn o bryd, mae adran 16(1)(a) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod person wedi'i anghymhwysol rhag bod yn aelod o'r Senedd os yw'r person hwnnw wedi'i anghymhwysol rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin. Mae Rhan 4 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn diddymu'r darpariaethau hynny ac yn diwygio Deddf 2006 i gyfeirio'n benodol at yr amgylchiadau anghymhwysol a oedd yn arfer bod yn gymwys yn anuniongyrchol i aelodaeth o'r Senedd drwy gyfeirio at anghymhwysol rhag aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin.

Mae Rhan 4 hefyd yn diwygio Deddf 2006 fel ei bod yn gwahaniaethu rhwng yr amgylchiadau sy'n rhwystr rhag ymgeisyddiaeth i'r Senedd a'r swyddi hynny sy'n rhwystr rhag bod yn aelod o'r Senedd, ond nid rhag ymgeisyddiaeth. Yr olaf yw'r rhai yr ystyrir y gallent arwain at wrthdaro buddiant pe byddai person yn aelod o'r Senedd ond lle y mae modd ymddiswyddo o'r swydd sy'n achosi'r gwrthdaro cyn tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch.

Mae'r OS drafft yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 2007 i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Er enghraifft, caiff cyfeiriadau at anghymhwysol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 eu hepgor gan nad yw anghymhwysol o dan y Ddeddf hon yn gymwys mwyach i etholiadau'r Senedd o ganlyniad i Ran 4 o Ddeddf 2020.

## **Cyhoeddi cyfeiriad ymgeiswyr**

Mae deddfwriaeth etholiadol ar gyfer etholiadau lleol yn Lloegr ac etholiadau Senedd y DU wedi'i newid yn ddiweddar i atal cyfeiriad ymgeiswyr mewn etholiad rhag cael ei gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y rhesymau dros wneud hyn ar gyfer yr etholiadau hynny yn gymwys hefyd i etholiadau'r Senedd: sef sicrhau nad yw unigolion medrus yn teimlo na ddylent sefyll mewn etholiad am eu bod yn credu bod y broses yn peryglu eu diogelwch, neu'n eu gwneud yn agored i ymddygiad difriol. Rydym hefyd yn ystyried sut y gellid cyflawni hyn pan fo'n ofynnol i ymgeiswyr sy'n gweithredu

fel eu hasiant eu hunain gyhoeddi eu cyfeiriad swyddfa ar gyfer anfon pob hawliad, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfen.

Felly, cynigir diwygiadau i sicrhau bod modd i ymgeiswyr atal eu cyfeiriad cartref rhag cael ei gyhoeddi a hefyd i sicrhau nad yw cyfeiriad cartref ymgeiswyr sy'n gweithredu fel eu hasiant eu hunain yn cael ei gyhoeddi.

## **Taliadau i Swyddogion Canlyniadau**

Mae'r OS drafft yn cynnwys diwygiad a fyddai'n cael yr effaith o ddileu "services rendered" o'r darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau gan ac i Swyddogion Canlyniadau o fewn Gorchymyn 2007. Effaith hyn fyddai dileu'r hawl i Swyddogion Canlyniadau etholaethol a rhanbarthol gael eu talu ffioedd personol am gynnal etholiadau'r Senedd. Ni fyddai effaith ar eu gallu i adennill treuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiadau'r Senedd neu mewn cysylltiad â nhw.

Mae'n ofynnol i bob prif gyngor benodi swyddog o'r cyngor i fod y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad cynghorwyr ar gyfer y prif gyngor hwnnw. Mae dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau ar wahân i'w ddyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel arfer, ond nid bob amser, prif weithredwr y prif gyngor yw Swyddog Canlyniadau prif gyngor.

Mae Gorchymyn 2007 yn darparu mai Swyddog Canlyniadau etholaethol a Swyddog Canlyniadau rhanbarthol fydd y person a benodir fel Swyddog Canlyniadau etholiadau cynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol sydd wedi'i lleoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn etholaeth neu ranbarth etholiadol y Senedd yn ôl y digwydd, oni bai bod mwy nag un person o'r fath ar gyfer y diben hwn ac os felly, y swyddog fydd y person sydd am y tro yn cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

Mae'r arferion presennol yn golygu bod Swyddogion Canlyniadau yn aml yn adennill swm am eu gwasanaethau a threuliau yr eir iddynt wrth gynnal etholiad gan y corff sy'n gyfrifol am ariannu'r etholiad. (Ar gyfer etholiadau Cymru, mae hyn yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ariannu etholiadau'r Senedd a phrif gynghorau unigol am etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymuned. Gall y prif gyngor adennill y costau sy'n gysylltiedig ag etholiadau cynghorau cymuned gan y cyngor cymuned).

Serch hynny, yn y blynyddoedd diwethaf mae llawer o sylw cyhoeddus wedi'i roi i lefel y cyflogau sy'n daladwy i uwch weision cyhoeddus mewn cyfnod o gyfyngiadau ar gyflogau yn gyffredinol. Mae hyn wedi cynnwys mater ffioedd Swyddogion Canlyniadau. Mewn rhai achosion, gall Swyddog Canlyniadau hawlio sawl ffi. (Er enghraifft, gall hynny ddigwydd yn etholiadau'r Senedd os yw'r Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am fwy nag un etholaeth a/neu'n cael ei benodi'n Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol at ddiben etholiad Aelodau Rhanbarthol). Cafodd y farn negyddol ynglŷn â chyflogau uwch weision cyhoeddus ei chadarnhau gan ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup><https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180526-crynodeb-or-ymatebion.pdf> (adran 6, tudalen 46)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Memorandwm Esboniadol (yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol) ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<sup>2</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r baich ychwanegol y mae'r rhaglen diwygio etholiadol wedi'i roi ar dimau rheoli etholiadol ledled Cymru. Er ein bod yn cynnig dileu'r ffi bersonol sy'n daladwy i Swyddogion Canlyniadau, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno, yn ei lle, swm a fyddai'n daladwy i bob tîm etholiadol am gynnal etholiadau'r Senedd yn 2021. Mae'n debygol o fod yn un swm cynyddol a fyddai'n cael ei dalu'n uniongyrchol i bob tîm rheoli etholiadol gan adlewyrchu nifer yr etholwyr, maint yr etholaeth ac a wnaeth y tîm ddelio ag etholaethau trawsffiniol ai peidio. Mae'n bosibl y byddai swm ychwanegol yn daladwy i'r timau hynny sy'n delio â'r agweddau gweinyddu rhanbarthol ar yr etholiad gan adlewyrchu cylch gwaith y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Rydym yn cynnig mai'r Swyddog Canlyniadau/Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fyddai'n penderfynu sut i wario'r swm hwn. Mae'r cynnig hwn yn parhau i gael ei ystyried.

### **Codau Ymarfer**

Mae'r OS drafft yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn Etholiadol lunio cod ymarfer mewn perthynas â threuliau etholiad ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd. Rhaid cyflwyno'r cod ymarfer i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo a chânt gymeradwyo Cod drafft sydd wedi'i lunio gan y Comisiwn, gydag addasiadau neu hebddynt. Yn flaenorol, yr Ysgrifennydd Gwladol oedd yn arfer y pŵer hwn.

### **Materion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft ond y bwriedir eu cynnwys yn y Gorchymyn terfynol**

Mae gwaith yn parhau ar ddau fater. Os yw'n briodol, bwriedir eu cynnwys yn y Gorchymyn terfynol ond nid ydynt wedi'u cynnwys eto yn y Gorchymyn drafft. Dyma'r ddau fater hynny:

- darpariaeth i sicrhau bod y rheolau yn y Gorchymyn ar gyfer cofnodion pleidleiswyr absennol a'r rheolau i ddiogelu gwybodaeth ynglŷn â chyrhaeddwy'r 14 a 15 mlwydd oed yn Neddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd
- darpariaeth i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Welsh" ar bapurau cofrestru a phleidleisio, fel y nodir isod.

### **Cyflwyno Pleidiau Gwleidyddol ar Bapurau Enwebu a Phleidleisio**

Mae cynnig yn cael ei ystyried i wneud ychwanegiad at Orchymyn 2007 ynglŷn â'r ffordd o gyflwyno pleidiau gwleidyddol ar bapurau enwebu a phapurau pleidleisio. Pe bai'r newid hwn yn cael ei wneud, byddai'n caniatáu i bleidiau ddefnyddio'r ôl-ddodiad "Cymru" (wrth ddefnyddio enw Cymraeg) neu'r rhagddodiad "Welsh" (wrth ddefnyddio enw Saesneg). Gwnaed y newid hwn yn yr Alban yng Ngorchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau etc.) 2010 ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban yn 2011. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng canghennau

---

<sup>2</sup> <https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld12877-em/pri-ld12877-em-w.pdf>



datganoledig pleidiau gwleidyddol ledled y DU ac osgoi dryswch i bleidleiswyr. Rydym hefyd yn ystyried gwneud y newid hwn ar gyfer ymgeiswyr llywodraeth leol yng Nghymru drwy'r is-ddeddfwriaeth briodol mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022.

### **Eithrio costau cysylltiedig ag anabledd a chyfieithu o dreuliau etholiad – i'w gynnwys mewn Gorchymyn ar wahân maes o law**

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi argymhell eithrio'r costau canlynol o gyfyngiadau gwario etholiadol pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr:

- costau cyfieithu rhwng Cymraeg a Saesneg
- costau rhesymol sydd i'w priodoli i anabledd unigolyn.

Fel rhan o'i raglen Diwygio'r Cynulliad, ymgynghorodd Comisiwn y Senedd (y corff sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Senedd) ar argymhellion y Comisiwn Etholiadol a chanfod bod cryn gefnogaeth dros eu gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion hyn ac yn bwriadu rhoi effaith iddynt mewn Gorchymyn ar wahân cyn etholiadau cyffredinol y Senedd yn 2021.

### **Materion amrywiol**

Mae nifer bach o ddiwygiadau amrywiol eraill hefyd wedi'u gwneud.

Er enghraifft, caiff sawl cyfeiriad at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 eu diwygio neu eu hepgor gan nad ydynt yn berthnasol mwyach.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n briodol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** Hoffem wybod eich barn ar y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn 2007. A yw'r diwygiadau'n ymarferol? A fyddent yn cael yr effaith a fwriedir gan y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n eu creu? A ydynt yn glir ac yn ddealladwy?

**Cwestiwn 2:** Hoffem wybod a oes unrhyw agweddau eraill ar y Gorchymyn yr ydych yn credu sydd angen eu diweddarau neu eu diwygio? A oes unrhyw ddatblygiadau wedi bod ers i'r Gorchymyn gael ei ddiwygio ddiwethaf sy'n golygu bod angen newid y Gorchymyn?

**Cwestiwn 3:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Gorchymyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 4:** Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r Gorchymyn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 5:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: